Hawdd ei Deall




# Helpu plant i ddysgu trwy'r Celfyddydau

## Cynllun i Gymru 2015 - 2020

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Mae hon yn fersiwn hawdd ei deall o **'Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau: Cynllun Gweithredu i Gymru 2015 – 2020'**

Mawrth 2015

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei deall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd ei darllen a'u deall.

Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych ynei adnabod i'ch helpu.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i;'w deall. Mae'r rhain mewn print bras ac wedi eu hesbonio mewn blwch o dan y gair. Mae rhestr o'r geiriau anodd yn y ddogfen yma ar dudalen 20.

Lle mae'r ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Cyngor Celfyddydau Cymru.

I gael mwy o gopïau o'r ddogfen yma cysylltwch gyda:



Arts Council of Wales
Cyngor Celfyddydau Cymru
Caerdydd, CF10 5AL



Ffôn: 0845 8734 900



Ffôn testun/neges destun: 07797800504
Dim ond talu am y pris arferol am neges



E-bost: info@artscouncilofwales.org.uk



Gwefan: http://www.artscouncilofwales.org.uk

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Anabledd Dysgu Cymru sydd wedi ysgrifennu'r ddogfen Hawdd ei Deall yma trwy ddefnyddio Photosymbols 5

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma..................................................2**

**Cyflwyniad gan Huw Lewis AC a Ken Skates AC..........................5**

**Helpu plant i ddysgu trwy'r Celfyddydau....................................6**

**Cyngor Celfyddydau Cymru.........................................................8**

**Beth rydyn ni eisiau i ddigwydd ..............................................10**

Sut y byddwn ni'n gwneud hyn ............................................11

**Ein cynllun:...............................................................................13**

1. Helpu plant i wella beth maen nhw'n wneud trwy ddefnyddio'r Celfyddydau ....................................................13
2. Cael mwy o Gelfyddydau mewn ysgolion, a rhai gwell.....16
3. Helpu athrawon a phobl greadigol proffesiynol i wella beth maen nhw'n wneud ....................................................18

**Gweld pa mor dda rydyn ni'n wneud .......................................19**

**Geiriau anodd............................................................................20**



Prosiect ysgol, Artis Cymuned (Llun: Nancy Evans)

# Cyflwyniad gan Huw Lewis AC a Ken Skates AC

Mae dysgu am y celfyddydau a gwneud celfyddydau yn bwysig i blant. Mae'n eu helpu nhw i deimlo'n hapusach ac i ddysgu'n well.

Rydyn ni'n credu bod celfyddydau yn helpu pobl i fod yn fwy cyfartal. Mae hyn yn meddwl bywyd gwell i bawb.

Fe fydd y cynllun yma yn helpu plant mewn ysgolion. Ac yn helpu Cymru i wneud mwy yn y byd a gwneud mwy o arian.

Rydyn ni'n rhoi arian i'r cynllun i ddangos mor bwysig ydy hyn inni. Fe fyddwn ni'n rhoi £10 miliwn yn y 5 mlynedd nesaf. Fe fydd y Loteri hefyd yn rhoi £10 miliwn.



**Huw Lewis AM**
Gweinidog Addysg a Sgiliau



**Ken Skates AM**
Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

# Helpu plant i ddysgu trwy'r Celfyddydau

Mae'r ddogfen yma yn sôn am ein cynllun i helpu plant i ddysgu trwy ddefnyddio'r Celfyddydau. Mae e'n gynllun 5 mlynedd.

Mae'r celfyddydau yn gallu bod yn:



Theatr



Cerddoriaeth



Celfyddydau Gweledol
fel peintio



Craft
fel cerflunio



Perfformiad
fel dawns



Syrcas
a charnifal

Mae pobl sy'n gwneud celfyddydau yn cael eu galw'n **artisitiaid**.

Mae’r celfyddydau’n bwysig oherwydd maen nhw’n ein helpu i ddeall:

- ni’n hunain a phobl eraill
- y pethau sydd yn ein gwneud yn wahanol, a
- y pethau sydd yn ein gwneud yr un fath.

Mae’r celfyddydau yn rhoi cyfle inni weithio gyda’n gilydd a dod ymlaen yn well.

Mae cymryd rhan mewn celfyddydau yn gallu bod yn hwyl hefyd.




Gweithdy Dylanwad gyda Laura Sheldon, Llenyddiaeth Cymru (llun: Sioned a Nia Photography)

# Cyngor Celfyddydau Cymru

Rydyn ni:

- yn cefnogi artistiaid yng Nghymru i wneud celf gwych
- yn gweithio i gael celfyddydau i gymaint o bobl yng Nghymru â phosibl.

Rydyn ni yn **Gorff Cyhoeddus**.

Mae **Cyrff Cyhoeddus** yng Nghymru yn edrych ar ôl arian i Lywodraeth Cymru.



Gweithdy cymunedol i ysgolion yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth (Llun: Cath Sherrell)

Rydyn ni'n edrych ar ôl arian i ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru.

Rydyn ni hefyd yn dweud wrth bobl mewn gwledydd eraill am y celfyddydau yng Nghymru.

Rydyn ni'n rhoi **grantiau** i brosiectau celfyddydau yng Nghymru.

**Grant** ydy arian rydyn ni'n ei roi i artistiaid i'w helpu nhw i wneud eu celfyddydau.

Rydyn ni'n rhoi **grantiau** i artistiaid a grwpiau unigol. Mae gennym ni ganllaw arall o'r enw '**Grantiau Celfyddydau i Fudiadau**' sydd yn dweud sut rydyn ni'n gallu helpu grwpiau a mudiadau.



Plant Ysgol Gynradd Hafod yn peintio murlun mewn cartref nyrsio lleol

# Beth rydyn ni eisiau i ddigwydd

Rydyn ni'n meddwl y dylai pob ysgol:

- defnyddio'r Celfyddydau i helpu plant i ddysgu
- gweithio gyda mudiadau celfyddydau i wneud hyn
- dweud wrth ein gilydd beth sy'n gweithio'n dda
- gwneud y Celfyddydau fel bod pawb yn gallu cymryd rhan



Chwedlau Cewri Cymru, prosiect clwstwr ysgolion cynradd sir y Fflint gyda'r artist preswyl, Luned Rhys Parri (Llun: Barry Hamilton)

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn

Fe fyddwn yn ceisio:

- helpu plant i wneud yn well trwy ddefnyddio'r Celfyddydau
- cael mwy o Gelfyddydau a Chelfyddydau gwell mewn ysgolion
- helpu athrawon a'n staff i wella beth maen nhw'n wneud.

Fe fyddwn ni'n gweithio ar y 3 peth rydyn ni'n meddwl sydd yn fwyaf pwysig i ysgolion:

1. cael plant i ddarllen yn well
2. cael plant i wneud mathemateg yn well
3. gwneud yn siŵr bod plant sydd gyda bywyd caled yn cael yr un cyfle â phawb arall

Fe fydd ein cynllun yn gweithio tuag at hyn. Mae angen inni weithio gyda mudiadau celfyddydau eraill. Mae angen i bawb ohonom ni weithio gydag athrawon ac ysgolion.



Gweithdy oriel yn Ffotogallery (Llun: Rowan Lear)

# Ein cynllun:

## 1. Helpu plant i wella beth maen nhw'n wneud trwy ddefnyddio'r Celfyddydau

Mae defnyddio celfyddydau mewn gwersi yn helpu plant:

- i fod eisiau dysgu
- i ymddwyn yn well
- i ddysgu mwy

Fe fyddwn yn dechrau trwy wneud rhai ysgolion yn Y**sgol Greadigol Arweiniol.**

Fe fydd **Ysgolion Creadigol Arweiniol** yn dangos sut y mae'n bosibl defnyddio'r celfyddydau i helpu plant i wneud yn well.

Fe fydd gan **Ysgolion Creadigol Arweiniol** syniadau am sut i ddefnyddio'r celfyddydau ym mhob gwers. Fe fyddwn yn:

- rhoi **pobl greadigol proffesiynol** iddyn nhw i weithio gyda'r ysgol

Mae **pobl greadigol proffesiynol** yn gweithio yn y celfyddydau. Dyna ydy eu gwaith. Er enghraifft, cerddorion, pobl sy'n ysgrifennu i'r theatr, artistiaid gweledol, curadwyr., actorion, dawnswyr, cerlfunwyr a chynhyrchwyr.

- gwneud yn siŵr bod yr athro/athrawes yn rheoli beth sy'n digwydd. Fe fyddan nhw'n gweithio gyda'r gweithwyr creadigol proffesiynol i ddysgu mewn ffyrdd newydd yn y dosbarth.

- cael help gennym ni am 2 flynedd o leiaf.

Fe fydd 1 o bob 3 ysgol yng Nghymru yn gallu bod yn **Ysgol Greadigol Arweiniol.**



Gweithdy adrodd stori creadigol gan Emma Cartwright, Oriel Mission



Chwedlau, prosiect ysgol Cyswllt Celf

## 2. Cael mwy o Gelfyddydau mewn ysgolion, a rhai gwell

I wneud hyn fe fyddwn ni yn:

- dechrau gwefan newydd gyda syniadau ar gyfer defnyddio'r celfyddydau mewn ysgolion

- rhoi arian i 4 o grwpiau cefnogi celfyddydau ac ysgolion ar draws Cymru. Fe fydd y grwpiau yma yn dod â phobl greadigol proffesiynol ac athrawon at ei gilydd. Fe fyddan nhw'n edrych ar wneud y celfyddydau yn well mewn ysgolion.

- chwilio am hyrwyddwyr celfyddydau sydd yn athrawon. Fe fydd yr hyrwyddwyr yma yn helpu ysgolion eraill i wneud y celfyddydau'n well

- rhoi arian i blant ysgol i roi cynnig ar bethau newydd yn y celfyddydau. Efallai bod hyn yn meddwl mynd i'r theatr, neu bethau newydd yn digwydd yn yr ysgol gyda mudiad celfyddydau

- gwneud yn siŵr bod yna ffyrdd o helpu plant gyda darllen a maethemateg yn y celfyddydau

- gweithio ar becyn newydd i ysgolion am ddefnyddio'r celfyddydau. Fe fydd hyn yn helpu plant sydd â bywydau caled i gael yr un cyfle â phawb arall

- chwilio am help sydd ar gael i blant sydd yn dda yn y celfyddydau. Fe fydd hyn yn ein helpu i wybod pa help sydd ei angen

- gweithio ar gael gwybodaeth dda i blant ar weithio yn y celfyddydau.




Trefnodd Artes Mundi 5 weithdai addysgiadol

## 3. Helpu athrawon a phobl greadigol proffesiynol i wella beth maen nhw’n wneud

Mae angen inni wneud yn siŵr y bydd y gwaith yma yn parhau mewn ysgolion. Fe fydd helpu athrawon a **phobl greadigol proffesiynol** yn ein helpu i wneud hynny.

I helpu athrawon a **phobl greadigol proffesiynol** fe fyddwn yn:

- dechrau hyfforddiant i athrawon a **phobl greadigol proffesiynol** ar ffyrdd o helpu plant gyda darllen a mathemateg
- o’r **Ysgolion Creadigol Arweiniol** fe fyddwn yn cael hyfforddwyr newydd. Fe fyddan nhw’n helpu i barhau gyda’r gwaith yma
- helpu canolfannau hyfforddi athrawon i ddefnyddio’r celfyddydau i ddysgu yn y dosbarth
- ysgrifennu am enghreifftiau gorau yng Nghymru o ddefnyddio’r celfyddydau i ddysgu yn y dosbarth

# Gweld pa mor dda rydyn ni'n gwneud

Fe fyddwn ni'n edrych ar yr **Ysgolion Creadigol Arweiniol**. Fe fyddwn ni'n gweld:

- pa mor dda mae'r plant wedi gwneud mewn darllen a mathemateg
- pa mor dda mae plant o deuluoedd tlawd wedi gwneud. Ydyn nhw wedi cael yr un cyfle â phawb arall?
- pa mor dda mae plant wedi gwneud yn y celfyddydau. Ydyn nhw'n defnyddio eu dychymyg? Ydyn nhw'n dda am feddwl a gwneud celfyddydau newydd?

Fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn. Fe fyddwn ni'n dweud yn yr adroddiad beth sydd angen inni ei wneud y flwyddyn nesaf.



Yr Hwb, Theatr i Bobl Ifainc Clwyd Theatr Cymru yn perfformio mewn ysgol uwchradd yn y Fflint

# Geiriau Anodd

### Cyrff Cyhoeddus

Mae Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru yn edrych ar ôl arian i Lywodraeth Cymru.

### Grant

Grant ydy arian rydyn ni'n ei roi i artistiaid i'w helpu i wneud eu celfyddydau.

### Pobl greadigol proffesiynol

Mae pobl greadigol proffesiynol yn gweithio yn y celfyddydau. Dyna ydy eu gwaith nhw. Er enghraifft, cerddorion, rhai sy'n ysgrifennu i'r theatr, artistiaid gweledol, curadwyr, actorion, dawnsyr, cerflunwyr a chynhyrchwyr.

### Ysgolion Creadigol Arweiniol

Ysgolion creadigol arweiniol. Mae'r ysgolion yma yn dangos pa mor dda y mae'n bosibl defnyddio'r celfyddydau i helpu plant i wneud yn well.